Gwnaed yn bosibl gan
Cronfa Treftadaeth
Made possible with
Heritage Fund

# Natur am Byth!

## Cynllun Hyfforddeion





Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru

Saving Wales' threatened species








cefnogir gan / supported by

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
WCVA CGGC
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Landfill Disposals Tax Communities Scheme

ef Esmée Fairbairn FOUNDATION

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

## partneriaeth Natur am Byth

amphibian and reptile conservation

Bat Conservation Trust

buglife Cymru

Bumblebee Conservation Trust

Butterfly Conservation

MARINE CONSERVATION SOCIETY

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Plantlife

RSPB CYMRU

VWT
Vincent Wildlife Trust

# Crynodeb

**Yr ysgogiad i weithredu**

Natur am Byth yw rhaglen adfer rhywogaethau flaenllaw Cymru sy'n uno naw elusen amgylcheddol â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn y bartneriaeth fwyaf erioed o'i bath yng Nghymru. Gydag ychydig dros hanner y planhigion a'r anifeiliaid yn weddill ac 17% o rywogaethau Cymru dan fygythiad o ddifodiant, mae Cymru yn un o'r gwledydd sydd wedi disbyddu fwyaf o ran byd natur yn y byd.I gydnabod y golled ddifrifol hon o ran bioamrywiaeth, ffurfiwyd partneriaeth Natur am Byth i weithredu mewn ymateb i'r argyfwng natur yng Nghymru.

Mae Natur am Byth yn targedu ymyriadau ar gyfer rhywogaethau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf o ddifodiant gyda chymorth penodol i'r bobl a all elwa fwyaf o ymgysylltu â threftadaeth naturiol. Gydag ysgogwyr deddfwriaethol arloesol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae gennym gyfle yng Nghymru i ddefnyddio'r buddion cadarn a ddaw yn sgil cysylltiad â natur i wella bywydau pobl.

**Y bartneriaeth**

Mae Natur am Byth yn gydweithrediad a gydlynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn partneriaeth â Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; Buglife; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn; Cadwraeth Glöynnod Byw; Plantlife; Cymdeithas Cadwraeth Forol; RSPB Cymru; ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.

**Cymryd y camau cyntaf tuag at adferiad**

Rydym wedi gosod **gweledigaeth 20 mlynedd** sy'n uchelgeisiol ond yn hanfodol i arwain ein gwaith fel partneriaeth.Gan ddysgu o lwyddiant 'Back from the Brink' yn Lloegr, mae ein partneriaeth yng Nghymru yn gam cyffrous ar daith i ysgogi cefnogaeth y cyhoedd, ymyrryd ar gyfer rhywogaethau sydd ar gyrion goroesi, profi datrysiadau, a chryfhau sector yr amgylchedd yng Nghymru.

Rydym yn fwy pendant nag erioed bod yn rhaid i ni ymuno i weithredu nawr ac mai Natur am Byth yw'r sbardun sydd ei angen arnom i roi hwb i adfer rhywogaethau.Cynlluniwyd ein rhaglen i sicrhau bod pobl Cymru – a chydweithwyr, gwirfoddolwyr, a chefnogwyr ein sefydliadau partneriaeth yn y dyfodol – yn ganolog i'n cenhadaeth.

Rydyn ni'n gwneud y canlynol:

- Grymuso cymunedau ar draws cymdeithas Cymru i gofnodi, gofalu am a gwella eu cymdogaethau a mannau gwyrdd/glas – gan dargedu cymunedau difreintiedig a'r rhai sy'n agos iawn at dreftadaeth sydd mewn perygl
- Uno pob cefndir i deimlo eu bod yn rhan o fyd natur ac yn elwa ohono, gan dargedu cynulleidfaoedd llai amlwg ac amrywiol sydd â llesiant isel i adrodd straeon ein bywyd gwyllt mwyaf gwerthfawr yn greadigol
- Atal difodiant 42 o rywogaethau yng Nghymru a gwrthdroi dirywiad 25 rhywogaeth arall, gan adfer y dreftadaeth naturiol y mae'r rhain yn dibynnu arni
- Uno busnesau, tirfeddianwyr a chymunedau i ymgorffori rheolaeth gynaliadwy ar gynefinoedd
- Hybu economïau lleol drwy ffermio cynaliadwy, hamdden, pysgodfeydd morol, a gwell cyflogadwyedd
- Gwella gwytnwch sector yr amgylchedd a rheoli tir i wneud mwy o wahaniaeth i rywogaethau fel rhan o ecosystemau iach

Bydd ein treftadaeth yn cael ei chofnodi a'i deall yn well a bydd rhywogaethau prin yn cael eu dathlu fel rhan o ecosystemau gwydn.

**Datrysiad sy'n canolbwyntio ar bobl**

Gwyddom fod ein hamgylchedd naturiol o dan bwysau a bygythiadau sylweddol, yn enwedig o ran yr argyfwng hinsawdd.Gall gweithredoedd unigolion, busnesau a sectorau cyfan gael effaith negyddol ar fyd natur.Felly, mae'n **hanfodol i'r busnes** bod **ymgysylltu â phobl** mewn ffordd gadarn ac wedi'i thargedu'n gynhenid i unrhyw ddatrysiad sy'n llwyddo i wrthdroi'r dirywiad hwn ar gyfer rhai o'n rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl. At hynny, mae fframwaith cyfreithiol blaenllaw Cymru yn darparu **llwyfan delfrydol** er mwyn i ni gyfrannu tuag at **newid sylfaenol** yn y berthynas sydd gan drigolion, busnesau, tirfeddianwyr a'r llywodraeth â byd natur a'r rhan hanfodol y mae'n ei chwarae yn ein llesiant yn y dyfodol.

**Am y tro cyntaf** yng Nghymru, mae Natur am Byth yn dod â phartneriaeth o naw sefydliad cadwraeth blaenllaw ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru i greu datrysiad cydgysylltiedig a fydd yn gweithredu ar gyfer rhywogaethau a phobl.

Mae gan ein rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl y potensial anhygoel i ysbrydoli ein cenedl, meithrin balchder o fewn cymunedau am y planhigion, ffyngau, cennau ac anifeiliaid arbennig sydd ar garreg eu drws, a dod â nhw at ei gilydd fel gwarcheidwaid y dreftadaeth naturiol o'u cwmpas.

**Hyfforddi gweithwyr cadwraeth proffesiynol**

Mae'r lleoliadau Natur am Byth i hyfforddeion wedi'u hanelu at roi cyfle i bobl o unrhyw gefndir sydd ag ychydig neu ddim profiad o gwbl gael profiad o weithio yn y sector amgylcheddol, gyda hyfforddiant sgiliau a chymorth i ddechrau gyrfa mewn cadwraeth natur. Wrth gynllunio pob un o'n tri lleoliad i hyfforddeion, ymgynghorwyd ag arbenigwyr o'r bartneriaeth, ac yn allanol gyda'r sector ehangach. Roedd hyn er mwyn deall sut y gallem wneud ein cynnig mor gynhwysol â phosibl. O ganlyniad, mae gan ein hyfforddeiaethau'r nodweddion canlynol:

✓ Telir mwy na'r cyflog byw gwirioneddol
✓ Lefel mynediad heb fod angen unrhyw brofiad blaenorol
✓ Hyfforddiant mewn adnabod cynefinoedd a rhywogaethau
✓ Darperir costau teithio a chynhaliaeth
✓ Darperir offer digidol
✓ Mentora gan weithwyr cadwraeth proffesiynol i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol cadwraeth

Gwahoddir darpar ymgeiswyr i drafod y rolau cyn gwneud cais i archwilio rhwystrau posibl i unrhyw un o'r eitemau a restrir o dan y cymwyseddau a'r gofynion ar gyfer y rôl, ac i ystyried sut y gellid eu lliniaru.



*Tîm Buglife Cymru, yn monitro gwlyptir ar Benrhyn Gŵyr*



*Rhywogaethau targed Natur am Byth a'u cynefinoedd cysylltiedig. Diolchiadau am ddelweddau i Plantlife, CNC, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Robbie Blackhall-Miles, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (Sinead Lynch).*

## Cyflwyno prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd

Mae dros 75% o weithgarwch y rhaglen yn cael ei ddarparu ar lefel lle o fewn 11 o ffiniau prosiect, pob un yn cael ei arwain gan un o'r deg sefydliad yn y bartneriaeth Natur am Byth. Byddtri hyfforddai yn cael eu croesawu yn 2025:un yng ngogledd-orllewin Cymru dan lywyddiaeth RSPB Cymru, un yn Abertawe dan ofal Buglife, ac un yn Sir Gaerfyrddin dan ofal yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn.  Bydd pob hyfforddai'n gweithio ar draws y prosiectau lluosog sy'n cael eu cyflawni yn eu hardal ddaearyddol, ond eu gwesteiwr fydd yn gyfrifol am reolaeth llinell a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith o ddydd i ddydd yn canolbwyntio ar brosiect y sefydliad sy'n lletya. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, bydd y lleoliadau hyn ar lefel mynediad ac nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.

### Crynodebau o'r prosiectau

Gelwir pum prosiect Natur am Byth yn 'aml-dacson', sy'n golygu ein bod mewn ardal benodol lle rydym wedi dewis ystod o rywogaethau sy'n rhychwantu grwpiau tacsonomaidd (e.e. planhigion i infertebratau) yn seiliedig ar her neu gyfle a rennir.  Gelwir y chwe phrosiect arall yn 'brosiectau un rhywogaeth'.Dewiswyd y rhain yn seiliedig ar angen brys i fynd i'r afael â goroesiad rhywogaeth sydd dan fygythiad mawr yng Nghymru.Mae rhai o'n prosiectau un rhywogaeth yn rhychwantu lleoliadau lluosog i adlewyrchu dosbarthiad y rhywogaeth darged honno (e.e. y gardwenynen feinlais).

**1. Arfordir, Tir Comin a Chymunedau Bae Abertawe (Buglife a'r Gadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid):** Ym Mhenrhyn Gŵyr a chymunedau trefol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, rydym yn gweithio gyda chynulleidfaoedd llai amlwg ar 13 o rywogaethau prin ar garreg eu drws er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn gwaith adfer – er lles pobl a byd natur.

**2. Tlysau Mynydd Eryri (Plantlife):** Man geni botaneg fodern, mae llethrau a chreigiau Eryri yn hafan i blanhigion ac infertebratau arctig eithriadol o brin – rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, tywyswyr mynydd a gerddi botaneg i adfywio 11 rhywogaeth ar gyrion bodolaeth.

**3. Pen Llŷn ac Ynys Môn (RSPB Cymru):** Penrhyn ac ynys sy'n cynnal cyfres syfrdanol o gynefinoedd – rydym yn adeiladu ar rwydweithiau cryf sy'n bodoli eisoes o grwpiau treftadaeth i ddod â phartneriaid ynghyd i gynnal rheolaeth addasol ar raddfa fanwl ar gyfer 17 o rywogaethau sydd mewn perygl.


**4. Trysorau Morol Cymru:** Mae 60% o bobl Cymru yn byw neu'n gweithio ar yr arfordir, gan roi cyfle ymgysylltu gwych i Natur am Byth gynnwys cymunedau yn y rheolaeth gynyddol a'r newid ymddygiad sydd eu hangen i achub tair rhywogaeth forol sydd dan fygythiad – morwellt, y môr-wyntyll binc a'r wystrysen frodorol.

**5. Y Gororau (CNC a Plantlife):** Mae ein gororau'n gartref i rai o'r cennau a mwsoglau prinnaf wrth ymyl Ewrop.Rydym yn gweithio gyda ffermwyr, llunwyr polisi, cynllunwyr a'r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth o fygythiadau llygredd aer o amaethyddiaeth a dangos ffyrdd ymarferol o wella gwytnwch.

Ceir chwe phrosiect arall sy'n canolbwyntio ar 'rywogaethau unigol', ac mae'r rhain yn targedu poblogaethau ynysig dan fygythiad difrifol neu'n treialu dulliau rheoli newydd i atal dirywiad.

**6. Achub y Gardwenynen Feinlais yng Nghymru (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn):** Gyda chadarnle yn ne Cymru yn y DU (mae gan Gymru dair o ddim ond pum poblogaeth sy'n weddill), rydym yn targedu tri chanolbwynt ar gyfer poblogaethau'r gardwenynen feinlais yng Nghasnewydd/Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Benfro i hyfforddi tirfeddianwyr a gwirfoddolwyr i'w rheoli a'u monitro yn y tymor hir.

**7. Sêr y Nos Bae Abertawe (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod):** Mae gan Gymru 61% o boblogaeth ystlumod pedol lleiaf y DU. Rydyn ni'n gweithio gyda chymunedau lleol i ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i ddeall sut mae'r rhywogaeth yn dilyn coridorau heb olau, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag effeithiau gorlifiad golau trefol yn Abertawe ar y rhywogaeth hon a'u lliniaru.



**8. Prosiect Ystlumod Du (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent):** Un o ystlumod mwyaf prin y DU, rydym yn ailgysylltu poblogaethau ynysig rhwng gogledd a de Sir Benfro trwy fapio coridorau cynefinoedd, rhoi cofnodwyr gwirfoddol ar waith, ac adeiladu rhwydwaith o berchnogion coetir sy'n rheoli eu safleoedd ar gyfer y rhywogaeth brin hon o ystlum.

**9. Pryf y Cerrig *Isogenus nubecula* (Buglife)**: Mae afon Dyfrdwy ger Wrecsam yn gartref i'r unig boblogaeth y gwyddys amdani yn y DU o'r pryf cerrig melyn a mawr hwn.Bydd arolygon arloesol, gwaith yn ymgysylltu â'r gymuned, a synergedd trwy adfer afonydd yn atal y rhywogaeth hon rhag diflannu yn y DU.




**10. Gweithredu dros Wiberod (y Gadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid)**: Mae unig neidr wenwynig y DU yn prinhau'n sylweddol ledled Ewrop.Rydym yn hyfforddi gwirfoddolwyr i gasglu samplau DNA o grwyn sydd wedi eu diosg, gan weithio gyda Phrifysgol Bangor ar leoliad myfyriwr i asesu ffitrwydd genetig a dosbarthiad y rhywogaeth.

**11. Y Fritheg Frown (Cadwraeth Glöynnod Byw)**: Glöyn byw sydd dan y bygythiad mwyaf yn y DU, gydag un gytref ar ôl yng Nghymru.Rydym yn gweithio gyda ffermwyr a gwirfoddolwyr i agor ardaloedd o goetir er mwyn cynyddu'r cynefin gorau posibl ac uwchsgilio aelodau'r gymuned i fonitro a rheoli cynefinoedd yn y tymor hir.

## Dysgu penodol i hyfforddeion

Bydd pob hyfforddai'n cael ei gyflogi gan un sefydliad cynnal, yn ogystal â chael cymorth ychwanegol a phrofiad 'yn y swydd' gan gydweithwyr mewn sefydliadau eraill yn y bartneriaeth Natur am Byth. Bydd hyn yn sicrhau lleoliad cyflawn gyda llawer o gyfleoedd i ddysgu am ystod o rywogaethau, cynefinoedd a ffyrdd o weithio.



**Hyfforddai wedi'i letya gan Buglife (BL)**

**Lleoliad –** Safleoedd yn Abertawe, Gŵyr, swyddfa Buglife Cymru yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr a swyddfa CNC yn Llandarcy

Bydd yr hyfforddai'n cael ei gefnogi i chwarae rhan allweddol wrth fonitro ystod amrywiol o rywogaethau targed a'u cynefinoedd ar draws ardal brosiect Bae Abertawe.Bydd yn ymuno â'r tîm i fonitro infertebratau targed, gan gynnwys chwilen y draethlin a'r corryn rafftio ffen – gyda chyfle posibl i ymuno ag arolygon ar gaiacau a chasglu DNA; monitro poblogaethau madfall y tywod gyda syrfewyr trwyddedig a chasglu hengroen gwiberod; a chynorthwyo i arolygu planhigion targed, gan gynnwys gold y môr, tegeirian y fign galchog a chrafanc-y-frân tridarn.

Bydd ffocws yr arolygon ar ddiddordebau allweddol yr hyfforddai, ei leoliad, a'r opsiynau cludiant sydd ar gael. Bydd yr hyfforddai'n cael ei annog i gofnodi profiad arolygon i gefnogi datblygiad gyrfa – yn arbennig ar gyfer rhywogaethau a warchodir. Bydd yn cael hyfforddiant ar adnabod rhywogaethau, technegau arolygu, a defnyddio apiau cofnodi yn y maes.
Lle bo'n bosibl, bydd yr hyfforddai yn ennill profiad cadwraeth ymarferol trwy ymuno â phartneriaid darparu lleol, megis tîm Corsydd Crynedig LIFE CNC yng Nghors Crymlyn, partïon gwaith gwirfoddol yr Ymddiriedolaeth Natur yn Overton, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar dir comin Rhosili a Gŵyr, tîm y Warchodfa Natur Genedlaethol yn Whiteford ac Oxwich, a thîm Tirwedd Genedlaethol Gŵyr.

Bydd yr hyfforddai'n mynychu ystod eang o ddigwyddiadau gwirfoddoli, dysgu a gwyddoniaeth dinasyddion lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gysylltu ag interniaid eraill, a'u cefnogi, gan gynnwys ymweld â gwaith gold y môr yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol, a chynnal interniaid eraill ar ymweliadau â'n safleoedd prosiect lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gefnogi prosiectau cyfagos a theithio ymhellach i archwilio cadwraeth ar waith ar brosiectau Natur am Byth eraill.

**Hyfforddai Buglife mewn cydweithrediad â'r Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC)**

- Ar gyfer y prosiect 'Gweithredu dros Wiberod', bydd yr hyfforddai'n cael cyfleoedd i gynyddu ei sgiliau a'i brofiad mewn arolygon ymlusgiaid ac ymgysylltu gwyddonol â'r cyhoedd / casglu agweddau. Yn fwy penodol, bydd cyfleoedd i gynorthwyo staff prosiect ar weithdai arolwg ymlusgiaid mewn ardaloedd gwiberod allweddol megis Gwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich a Thwyni Broughton.
- Gall yr hyfforddai hefyd ennill profiad o gasglu agweddau at wiberod o amgylch Abertawe trwy gwblhau holiaduron arolwg mewn mannau cyhoeddus neu mewn digwyddiadau natur lleol, a chynorthwyo staff y prosiect mewn digwyddiadau natur lleol i addysgu'r cyhoedd am wiberod mewn ymdrech i leihau erledigaeth y rhywogaeth yng Nghymru.

**Hyfforddai Buglife mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod**

- Mae prosiect Sêr y Nos Bae Abertawe, a arweinir gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, yn cynnig cyfleoedd i'r hyfforddai gynorthwyo gyda gwaith maes a thasgau desg megis: cynnal arolygon trawslun ystlumod ar droed, cynorthwyo'r swyddog prosiect gyda theithiau ystlumod ar gyfer aelodau'r cyhoedd, casglu cofnodion o ystlumod pedol lleiaf o byrth awdurdodau cynllunio lleol, a chynorthwyo gyda dadansoddi synau ystlumod.
- Gellir darparu hyfforddiant lle bo angen ar sut i ddefnyddio synwyryddion ystlumod ac ecoleg ystlumod pedol lleiaf, a chyflwyniad i ddadansoddi synau ystlumod.

**Hyfforddai Buglife mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (BBCT) a Chadwraeth Glöynnod Byw (BC)**

- Cymorth arolwg ar gyfer y chwilen olew gwddf byr a'r tarianbryf *Odontoscelis fuliginosa* yn Sir Benfro.
- Ymuno ag arolwg staff a gwirfoddolwyr Cadwraeth Glöynnod Byw ar gyfer y gytref olaf o frithegion brown yng Nghymru, mewn lleoliadau ym Mro Morgannwg, i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr.

**Hyfforddai a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (BBCT)**

**Lleoliad** – prif ddyletswyddau wedi'u lleoli yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ynghyd ag ymweliadau â safleoedd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro

Bydd yr hyfforddai wedi'i leoli yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a bydd yn chwarae rhan allweddol yng nghadwraeth gold y môr yng Nghymru, sy'n un o'r planhigion neithdar allweddol ar gyfer y gardwenynen feinlais. Mae lluosogi planhigion o'r tair poblogaeth sy'n weddill yng Nghymru (allan o chwe phoblogaeth sy'n weddill yn y DU) ar y gweill, a bydd arbrofion croesbeillio yn dilyn i weld a yw mwy o amrywiaeth enetig yn cynhyrchu hadau mwy hyfyw. Bydd yr hyfforddai'n dysgu am ofal a lluosogi'r samplau gold y môr a gasglwyd, a'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal arbrofion croesbeillio (efallai trwy rywogaethau planhigion eraill), gyda'r gobaith y bydd rhai unigolion gold y môr yn blodeuo erbyn Awst 2025 er mwyn iddynt fod yn rhan o'r arbrofion hynny. Bydd yr hyfforddai hefyd yn helpu'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i wneud gwaith monitro botanegol ar gyfer prosiect y garderwenynen feinlais.

Bydd yr hyfforddai'n mynychu ystod eang o ddigwyddiadau gwirfoddoli, dysgu a gwyddoniaeth dinasyddion lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gysylltu â thimau eraill, a'u cefnogi, a chynnal hyfforddeion eraill ar ymweliadau â'n safleoedd prosiect lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gefnogi prosiectau cyfagos a theithio ymhellach i archwilio cadwraeth ar waith ar brosiectau Natur am Byth eraill.

**Hyfforddai'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn mewn cydweithrediad â Plantlife**

- Bydd Arweinydd Planhigion Fasgwlaidd Plantlife ar gyfer Natur am Byth yn darparu cefnogaeth a mentoriaeth trwy gydol gwaith yr hyfforddai gyda gold y môr. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar greu'r arbrawf peillio, galluogi cyflwyno, a rhoi cymorth gweithredol i'r hyfforddai ysgrifennu'r canlyniadau. Bydd Plantlife, ochr yn ochr â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn cynghori ar yr arferion garddwriaethol gorau ar gyfer y rhywogaeth. Byddwn ni (Plantlife a'r hyfforddai) yn archwilio canlyniadau'r arbrawf er mwyn deall a oes angen trawsleoli'r rhywogaeth er mwyn galluogi cynhyrchu hadau yn y gwyllt. Bydd Plantlife yn hwyluso casglu deunydd planhigion ychwanegol pe bai angen ei drawsleoli.
- Yn ogystal, bydd Plantlife yn cynnal ymweliad â safle gwyllt y Gogarth ar gyfer gold y môr er mwyn i'r hyfforddai gael y cyfle i weld y rhywogaeth yn ei sefyllfa wyllt a deall y rhywogaeth yng nghyd-destun ei bod yn rhywogaeth y stepdir. Bydd yr ymweliad hwn yn galluogi'r hyfforddai i ddeall ecoleg gold y môr a'r rhywogaethau y mae'n cysylltu â nhw. Bydd y daith maes hon hefyd yn caniatáu i'r

hyfforddai ymweld â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, lle bydd y cysylltiad hanesyddol yn cael ei wneud rhwng y rhywogaethau Arctig Alpaidd creiriol o'r amgylchedd mynyddig uchel a rhywogaethau glaswelltir y stepdir yn y Gogarth, Gŵyr, creigiau Stanner a Sir Benfro yng nghyd-destun amser, rhewlifiant ac effeithiau dynol.

**Hyfforddai'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn mewn cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

- Bydd swyddog prosiect CNC ar gyfer prosiect Gororau Cymru yn y Canolbarth yn cynnig cymorth i'r hyfforddai drwy berthynas cynllun 'cyfeillio', gyda dyddiau penodedig yn gweithio ochr yn ochr â'r hyfforddai yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
- Mewn cytundeb â'r sawl sy'n cynnal lleoliad yr hyfforddai (yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn), bydd rhai ymweliadau safle'n cael eu trefnu gan swyddog prosiect CNC ar y cyd â'r swyddog prosiect arall sy'n gweithio ar Ororau Cymru, sy'n cael ei gynnal gan Plantlife. Bydd y rhain yn galluogi'r hyfforddai i ddysgu am rai o rywogaethau targed Gororau Cymru, sef cennau a bryoffytau.

**Hyfforddai'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol**

- Bydd staff prosiect Môr Natur am Byth a phartneriaid yn y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac ACA Sir Benfro yn darparu cyfleoedd i ddysgu am gadwraeth, adfer a rheolaeth ecosystemau morol. Mae tîm Môr Natur am Byth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol ledled Cymru, gyda ffocws penodol ar faterion ansawdd dŵr, gan gysylltu'r rhain ag adfer morwellt, adfer wystrys brodorol a chadwraeth môr-wyntyllau pinc.
- Bydd yr hyfforddai'n cael cynnig cyfleoedd i fynychu digwyddiadau gwirfoddoli, dysgu a gwyddoniaeth dinasyddion o fewn ardal y prosiect, yn benodol yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a'r ardaloedd cyfagos. Yn benodol, bydd yr hyfforddai'n cael cyfleoedd i ddysgu am y prosiect adfer a rheoli wystrys brodorol a'r fenter gwyddoniaeth dinasyddion i samplu ansawdd dŵr. Yn ogystal, bydd ganddo fynediad at hyfforddiant a dysgu ar-lein drwy'r Gymdeithas Cadwraeth Forol. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddo) hyfforddiant ar gyfer trefnu digwyddiadau glanhau traethau, sgiliau adnabod bywyd morol, a dysgu am bysgota a dyframaethu cynaliadwy.

RSPB CYMRU

**Hyfforddai a gynhelir gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**

**Lleoliad –** Pen Llŷn ac Ynys Môn. Gan gynnwys swyddfa'r RSPB ym mharc gwyddoniaeth M-Sparc a gwarchodfa natur Cors Ddyga

Cefnogir yr hyfforddai i chwarae rhan allweddol mewn monitro ystod amrywiol o rywogaethau targed a'u cynefinoedd ym Mhen Llŷn ac Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys nodi tiriogaethau bridio gylfinirod, lleoli nythod a helpu i osod ffensys trydan dros dro i amddiffyn nythod yn Nyffryn Cefni; monitro niferoedd brain coesgoch a nythod ar hyd yr arfordir; asesu niferoedd y cor-rosyn rhuddfannog ac asesu cynefin; monitro niferoedd y wenynen saer fawr, pellter o'r nythod a'r planhigyn sy'n ei chynnal; neu fonitro arwyddion llygod y dŵr a mincod ar hyd dyfrffyrdd.

Bydd yr hyfforddai'n helpu'r tîm i reoli cynefinoedd ac i arddangos y rhywogaethau arbennig yng ngogledd Cymru mewn digwyddiadau a theithiau cerdded. Darperir hyfforddiant a bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran monitro rhywogaethau targed yn ôl lleoliad yr ymgeisydd, y cludiant sydd ar gael, a'i ddiddordebau penodol.

Bydd yr hyfforddai'n mynychu ystod eang o ddigwyddiadau gwirfoddoli, dysgu a gwyddoniaeth dinasyddion lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gysylltu â thimau eraill, a'u cefnogi, a chynnal hyfforddeion eraill ar ymweliadau â'n safleoedd prosiect lleol. Bydd yn cael cyfleoedd i gefnogi prosiectau cyfagos a theithio ymhellach i archwilio cadwraeth ar waith ar brosiectau Natur am Byth eraill.

**Hyfforddai'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol**

- Bydd staff prosiect Môr Natur am Byth a phartneriaid yn y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn darparu cyfleoedd i ddysgu am gadwraeth, adfer a rheolaeth ecosystemau morol. Mae tîm Môr Natur am Byth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol ledled Cymru, gyda ffocws penodol ar faterion ansawdd dŵr, gan gysylltu'r rhain ag adfer morwellt, adfer wystrys brodorol a chadwraeth môr-wyntyllau pinc.
- Bydd yr hyfforddai'n cael cynnig cyfleoedd i fynychu digwyddiadau gwirfoddoli, dysgu a gwyddoniaeth dinasyddion o fewn ardal y prosiect, yn benodol ym Mhen Llŷn, ar draws ardal gadwraeth Pen Llŷn a'r Sarnau ac Ynys Môn. Yn benodol, bydd yr hyfforddai'n cael cyfleoedd i ddysgu am brosiect adfer a rheoli morwellt Porthdinllaen a'r fenter gwyddoniaeth dinasyddion i samplu ansawdd dŵr. Yn ogystal, bydd ganddo fynediad at hyfforddiant a dysgu ar-lein drwy'r Gymdeithas Cadwraeth Forol. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddo) hyfforddiant ar gyfer trefnu digwyddiadau glanhau traethau, sgiliau adnabod bywyd morol, a dysgu am bysgota a dyframaethu cynaliadwy.
- Gellir cynnig sesiwn bwrpasol diwrnod gwlyb yn gweithio yn y trydydd sector os yw hyn o ddiddordeb.

**Hyfforddai'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) mewn cydweithrediad â Plantlife**

- Bydd Arweinydd Planhigion Fasgwlaidd Plantlife ar gyfer Natur am Byth yn darparu cefnogaeth a mentoriaeth trwy gydol gwaith yr hyfforddai gydag unrhyw un o rywogaethau planhigion fasgwlaidd y prosiect hwn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar unrhyw feysydd lle bydd yr hyfforddai'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni gwaith ar gyfer rhywogaethau planhigion fasgwlaidd, a chefnogi'r hyfforddai yn ei rôl.
- Yn benodol, bydd Plantlife yn cynnal amrywiaeth o ymweliadau maes â'r Gogarth, y Glyderau, Cwm Bychan a Bryniau Clwyd i alluogi'r hyfforddai i ddeall y ferywen fel rhywogaeth. Bydd yr ymweliadau hyn yn galluogi'r hyfforddai i ddeall ecoleg y ferywen a'r rhywogaethau y mae'n gysylltiedig â nhw. Bydd y gwaith maes hwn hefyd yn ymgysylltu'r hyfforddai â chysylltiad diwylliannol a hanesyddol y ferywen â Chymru, gan ei rhoi yng nghyd-destun ei dwy don o gytrefu tirwedd Prydain fel rhywogaeth greiriol Arctig Alpaidd o'r amgylchedd mynyddig uchel a gwladychwr o orllewin Ewrop.

**Hyfforddai'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) mewn cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

- Bydd yr hyfforddai yn cael cyfle i dreulio amser gydag aelodau o Dîm Rhywogaethau Daearol CNC i gael profiad o waith arbenigwyr technegol yn CNC. Gall hyn gynnwys cadwraeth a monitro gwiwerod coch, monitro ystlumod, ac ymweliadau â safleoedd infertebratau prin.
- O'r gweithgareddau hyn, bydd yr hyfforddai'n cael blas ar y mathau o faterion y mae staff CNC yn ymdrin â nhw.



*Tîm Natur am Byth y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yng ngwarchodfa natur RSPB Cors Ddyga, Ynys Môn. Safle allweddol ar gyfer yr hyfforddai a gynhelir gan yr RSPB.*

## Amserlen a gydlynir yn genedlaethol i hyfforddeion

Fel carfan o dri hyfforddai, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymgymryd â hyfforddiant, ymweliadau safle a datblygiad proffesiynol ar y cyd.

**Rhannu eich taith**

Bydd pob hyfforddai yn dogfennu ei daith yn ystod y lleoliad. Bydd hyn yn cynnwys postio diweddariadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys 'cymryd drosodd' sianeli cyfryngau cymdeithasol y partner o bryd i'w gilydd. Mae cyfle i ysgrifennu postiadau blog perthnasol a blogiau fideo, a chreu fideo 'hyrwyddo' i arddangos y mathau o weithgareddau y mae pob un yn cymryd rhan ynddynt. Bydd swyddog cyfathrebu tîm canolog Natur am Byth a thîm y sefydliad lletyol yn cefnogi pob hyfforddai i ddatblygu cyfres o fideos cryno llawn gwybodaeth ar-lein i arddangos ein rhywogaethau, cynefinoedd a chymunedau lleol gwych. Y gobaith yw y bydd y rhain yn creu atgofion parhaol, ac yn darparu tystiolaeth ategol i ddarpar gyflogwyr, wrth gyfrannu hefyd at etifeddiaeth ddigidol Natur am Byth.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu:

- Hyfforddiant ar sut i ddefnyddio ffôn clyfar i greu fideos byr a blogiau fideo
- Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer allgymorth
- Meithrin tîm a chydweithio ag ystod eang o gydweithwyr, ar draws sefydliadau lluosog
- Profiad o fonitro a gwerthuso dysgu newydd, sy'n sgìl allweddol ar gyfer unrhyw yrfa

**Hyfforddiant cynefinoedd ar raddfa eang ac adnabod rhywogaethau – cyfres ymweliadau safle**

Bydd cyfres o bum ymweliad safle diwrnod cyfan yn cael ei threfnu bob hyn a hyn drwy'r lleoliadau wyth mis. Telir costau cludiant a llety gan y rhaglen, gyda'r tri hyfforddai yn mynychu'r diwrnodau dysgu hyn ar yr un pryd gyda staff Natur am Byth. Bydd pob sesiwn yn cael ei harwain gan arbenigwr cynefinoedd a fydd yn esbonio nodweddion allweddol y cynefin ar raddfa eang dan sylw, gan ganolbwyntio ar ofynion adnabod a rheoli rhywogaethau allweddol.

Bydd y cynefinoedd graddfa eang a ganlyn yn cael eu cynnwys mewn pum ymweliad safle ar wahân:

1. Traethau creigiog rhynglanwol ac aberoedd
2. Glaswelltir llawn rhywogaethau (dolydd) a thwyni tywod
3. Rhostir yr iseldir
4. Coetir llydanddail hynafol
5. Mawndir a glaswelltir sur

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu:

- Adnabod rhywogaethau nodweddiadol a geir o fewn pob cynefin graddfa eang
- Dealltwriaeth o nodweddion allweddol y cynefinoedd hyn
- Gwybodaeth hanfodol am ofynion rheoli a chamau tirfeddianwyr i gadw cynefinoedd mewn cyflwr da
- Dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth sy'n sail i safleoedd gwarchodedig (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)
- Mynediad i'r safle a chaniatâd wrth weithio ar ardaloedd gwarchodedig

**"Dysgu o gewri" – sesiynau mentora**

Mae cadwraeth natur Cymru yn gartref i amrywiaeth o naturiaethwyr, awduron, ymarferwyr a ffigurau cyhoeddus ysbrydoledig. Bydd ein hyfforddeion yn cael eu paru gydag un o'n 'mawrion byw' i ymgymryd â phrosiect hanes llafar yn dogfennu'r newidiadau y mae pob unigolyn wedi'u gweld yn ei oes wrth warchod a hyrwyddo byd natur yng Nghymru.

Bydd pob hyfforddai yn cael ei baru â gweithiwr cadwraeth natur profiadol, gyda degawdau o brofiad o weithio yn sector yr amgylchedd yng Nghymru. Bydd yr hyfforddeion yn dysgu sgiliau hanes llafar a dulliau cyfweld ac yn cael archif ddigidol o Gasgliad y Werin Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Bydd yr hyfforddeion yn gyfrifol am gofnodi, golygu a chyhoeddi'r straeon y sawl sydd wedi'i neilltuo iddynt.

Bydd cyfres o sesiynau strwythuredig rhwng yr hyfforddai a'r mentor. Gall y rhain gynnwys ymweliadau safle â gwarchodfeydd natur a safleoedd gwarchodedig, neu gyfarfodydd dan do. Bydd y pwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth, gan arwain at gyfweliad hanes llafar i gofnodi profiad y mentor o'i amser yn gweithio ym maes cadwraeth natur yng Nghymru.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu:

- Cipolwg prin ar fywyd fel ymarferwr cadwraeth natur
- Canllawiau ar lwybrau gyrfa ac opsiynau
- Dealltwriaeth o sector yr amgylchedd yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol
- Cipolwg ar y diwylliant o weithio mewn gwahanol sefydliadau
- Hyfforddiant ffurfiol ar dechnegau cyfweld a golygu fideo



*Barbara Jones, arbenigwr cenedlaethol ar ecosystemau ucheldir y DU. Yn rhannu ei gwybodaeth am blanhigion alpaidd gyda phrif ariannwr Natur am Byth, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF)*

**Sgiliau rheoli data hanfodol**

Mae unrhyw rôl yn y sector amgylcheddol yn gofyn am ryw lefel o brosesu data. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth sylfaenol o Microsoft Excel (meddalwedd daenlen) a phwysigrwydd cadw cofnodion. Bydd pob hyfforddai yn mynychu hyfforddiant lefel mynediad mewn defnyddio Microsoft Excel, ac yn cymryd rhan mewn gweithdy gyda staff Natur am Byth i egluro rôl cofnodi rhywogaethau yn y DU. Bydd hyn yn esbonio rolau gwahanol sefydliadau wrth gasglu, storio a phrosesu cofnodion rhywogaethau ac asesiadau cyflwr cynefinoedd. Bydd yn darparu dealltwriaeth gadarn o'r broses ddata sy'n sail i reoli bioamrywiaeth yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu:

- Sut i ddefnyddio Excel i fewnbynnu cofnodion rhywogaethau a rheoli data
- Dealltwriaeth o rolau canolfannau cofnodion lleol a chynlluniau a sefydliadau cofnodi bioamrywiaeth cenedlaethol (e.e. y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol)
- Cyflwyniad i'r dulliau a ddefnyddir gan asiantaethau statudol i asesu rhywogaethau a chyflwr safleoedd gwarchodedig



*Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, CNC a'r arbenigwr cyfathrebu Dani Harries (Golly Slater Ltd) ar safle rhyddhau wystrys brodorol Natur am Byth yn Sir Benfro (diolch i Dani Harries)*

Natur am Byth!

Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru

Saving Wales' threatened species

Gwnaed yn bosibl gan

Cronfa Treftadaeth

Made possible with

Heritage Fund

**cefnogir gan / supported by**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
WCVA CGGC
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Esmée Fairbairn Foundation

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales